

Addasu potiau i gadw'r posibilrwydd o bysgota anfwriadol i leiafswm – Taflen Wybodaeth Gryno.



Mae pobl yn gallu colli cyfarpar pysgota – mae'n digwydd. I bysgotwyr, mae colli cyfarpar pysgota yn golygu colli incwm. Yn ogystal â hyn, mae potiau sy'n mynd ar goll yn gallu pysgota'n anfwriadol pan fyddant mewn cyflwr digon da i barhau i bysgota. Yn y pendraw, bydd unrhyw greaduriaid sy'n cael eu dal yn y pot, heb gyfle i ddianc, yn marw, a byddant yn dod yn abwyd sy'n annog pysgod a chramenogion eraill i fynd i mewn i'r pot, ac felly mae'r cylch yn parhau. Cyfeirir yn aml at y broses hon fel pysgota anfwriadol ac mae'n gallu cael effaith negyddol ar yr amgylchedd, stociau'r dyfodol a chynaliadwyedd y diwydiant pysgota.

Mae'r ffordd y collwyd y fagl, ble collwyd y fagl, a'r math o fagl a gollwyd, yn ffactorau sy'n dylanwadu ar y tebygolrwydd o unrhyw bysgota anfwriadol. Nid allai pob pot a gollwyd bysgota'n anfwriadol, ond mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod pysgota anfwriadol yn gyffredin mewn potiau colledig dan 2 flwydd oed, o leiaf.

Mae angen 'dolen wan' a fydd yn diraddio ac yn galluogi'r pot i agor ar ôl cyfnod o amser, gan ryddhau'r rhywogaethau a bysgotwyd yn anfwriadol. Mae angen i'r 'ddolen wan' fod yn ddigon gwan i fethu ar ôl cyfnod o amser, ond ni ddylai fod mor wan fel ei bod yn anghyfleus i weithgareddau pysgota arferol am fod angen ei newid yn rhy aml. Treialodd y Fenter Pysgod Cregyn Cynaliadwy yn Sir Benfro wahanol addasiadau 'dolen wan' i'r bachyn a hefyd i'r agoriadau yn 2016-17. Profwyd cylchoedd hollt ond gwelodd mwyafrif y pysgotwyr nad oeddent yn ddigon cryf, a'u bod yn methu dan densiwn.

Darganfu'r cyfranogwyr mai'r ateb gorau oedd y cylch mochyn Ghost Buster wedi'i wneud o ddu aneliedig, sydd ar gael gan GT Products. Roedden nhw tua 3.5c y cylch.

Mae'r drefn hon yr un peth ar gyfer potiau llygad galed (mynedfa uwch) a llygad feddal (mynedfa ochr).



Cylch mochyn Ghost Buster

Teclyn crimpio a chylch mochyn ar agor ac wedi'i grimpio ar gau.



Bachau wedi'u haddasu gyda chylch mochyn

Bachau wedi'u haddasu gyda chylch mochyn. Mae'n defnyddio'r cylch mochyn Ghost Buster i ddal y cortyn sioc lastig tu mewn i lygad y bachyn. Os digwydd i'r cylch mochyn fethu, mae'r cortyn o'r bachyn i'r cortyn lastig tu ôl i'r rhwymyn cebl/cylch mochyn arferol yn dal gafael ar y bachyn.

Darganfu treial y Fenter Pysgod Cregyn Cynaliadwy yn Sir Benfro fod yr holl fachau wedi'u haddasu â chylchoedd mochyn Ghost Buster yn para rhwng 11 a 17 mis. I'r rheiny sy'n dod â'u potiau i mewn dros y gaeaf, gallai gosod cylchoedd mochyn newydd ar bob bachyn yn y gwanwyn sicrhau dalffeydd diogel ar gyfer y tymor newydd. I'r rheiny sy'n cadw'u potiau allan 12 mis y flwyddyn, argymhellir gosod bachau wedi'u haddasu'n raddol i atal y cyfan rhag methu ar yr un pryd ac i hwyluso'r gwaith cynnal a chadw. Mae cadw bachau sbâr wedi'u haddasu gyda chi ar y cwch, mewn bag wedi'i selio, yn gymorth i newid bachau'n gyflym.

Defnyddir cylchoedd mochyn Ghost Buster yn helaeth dramor lle maent yn cael eu defnyddio i ddal agoriadau dianc, ac maent wedi cael eu dylunio i bara 12 mis. Roedd yn well gan fwyafrif y cyfranogwyr ddolen wan ar y bachyn yn hytrach nag agoriad/panel dianc gan ei bod yn haws ei monitro. Yn ychwanegol at hyn, roedd mwyaf tebygol o fethu wrth roi tensiwn ar y bachyn.

Mae mabwysiadu ymagwedd ragweithiol at bysgota anfwriadol yn gam synhwyrol, ac fel y mae'r Fenter Pysgod Cregyn Cynaliadwy yn Sir Benfro wedi dangos, mae'n hawdd cyflawni hyn. Er nad yw addasiadau o'r fath yn debygol o atal pysgota anfwriadol yn gyfan gwbl os oes potiau'n mynd ar goll, mae'n cymryd camau tuag at ei ostwng.

Gall rhwydwaith cymorth da gynorthwyo pysgotwyr i ddod o hyd i botiau a'u cael yn ôl os ydynt yn mynd ar goll. Gallai dod i gyswllt â deifars lleol fod o fantais i bysgotwyr, fel ffordd o ddod o hyd i gyfarpar coll a'u cael yn ôl.

Ceir gwybodaeth bellach, a ffilm fer ar y Fenter Peilot Pysgod Cregyn yn Sir Benfro ar www.pembrokeshiremarinesac.org.uk/psi.html

Neu gallwch gysylltu â rheolwr y prosiect.
E-bost: pembrokeshireSSI@gmail.com

 @PembsMarineLife

 @PembrokeshireMarineWildlife

